IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD MAWRTH, 23 IONAWR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Williams(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Goddard a/ac Jacobsen |

1 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

2 : CAIS I AMRYWIO TRWYDDED SAFLE – PULSE MARDI GRAS – CCCP01433

| | |
|---|---|
| Ymgeisydd: | Carl Ryan, Cyfarwyddwr, Licensee Management 1 Ltd<br>Philip Kolvin QC ar ran Mr Ryan<br>Matthew Phipps, Cyfreithiwr ar ran Mr Ryan<br>Richard Imlach<br>Darrell Butterworth, Ymgynghorydd Cydymffurfio Trwyddedu a Diogelwch |
| Awdurdodau Cyfrifol: | Richard Cole, Cwnsel ar ran Heddlu De Cymru<br>PC Tim Davies, Heddlu De Cymru<br>Sgt Justin Hardwick, Heddlu De Cymru |
| | Gerald Gouriet QC, ar ran yr Awdurdod Trwyddedu<br>Rhys Morgan, Awdurdod Trwyddedu |
| Unigolion Eraill: | Leo Charalambides, Cwnsel ar ran Jurys Inns<br>Billy Mc Cabe, Is-reolwr, Jurys Inns |
| | Y Cynghorydd Chris Weaver, Cynghorydd Ward, Cathays |

Derbyniwyd cais i amrywio Trwydded Safle gan Licensee Management 1 Limited parthed Parti Stryd Mardi Gras Clwb Nos Pulse, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF102DW.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

1 i ymestyn yr oriau a ganiateir fel a ganlyn:

Oriau Agor:

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Gwener | O 11:00 tan 06:30 y bore canlynol | Dim caniatâd ar hyn o bryd |
| Sadwrn | O 11:00 tan 06:30 y bore canlynol | Cynnydd o'r 04:30 presennol |
| Dydd Sul | O 11:00 tan 02:30 y bore canlynol | Cynnydd o'r 00:30 presennol |

Dydd Sul cyn y Gŵyl Banc tan 06:30 y bore canlynol

Awr ychwanegol i gael ei ganiatáu yn union wedi cychwyn Amser yr Haf ar ddiwedd yr oriau a ganiateir y bore hwnnw (i wneud iawn am yr awr y bydd y safle fel arall yn ei golli wrth droi'r clociau ymlaen).

| | |
|---|---|
| Nos Galan | O 11:00 tan 06:30 y bore canlynol |
| Gŵyl Steffan | O 11:00 tan 06:30 y bore canlynol |

Dramâu (tu fewn a thu allan), Gwerthu Alcohol, Dangos Ffilmiau (tu fewn a thu allan), Digwyddiad Chwaraeon Dan Do, Adloniant Bocsio neu Wreslo (tu fewn a thu allan), Cerddoriaeth Fyw (tu fewn a thu allan), Adloniant Tebyg o ran Disgrifiad (tu fewn a thu allan):

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Gwener | O 11:00 tan 06:00 y bore canlynol | Dim caniatâd ar hyn o bryd |
| Sadwrn | O 11:00 tan 06:00 y bore canlynol | Cynnydd o'r 04:00 presennol |
| Dydd Sul | O 11:00 tan 02:00 y bore canlynol | Cynnydd o'r 00:00 presennol |

Dydd Sul cyn y Gŵyl Banc tan 06:00 y bore canlynol

Awr ychwanegol i gael ei ganiatáu yn union wedi cychwyn Amser yr Haf ar ddiwedd yr oriau a ganiateir y bore hwnnw (i wneud iawn am yr awr y bydd y safle fel arall yn ei golli wrth droi'r clociau ymlaen).

| | |
|---|---|
| Nos Galan | O 11:00 tan 06:30 y bore canlynol |
| Gŵyl Steffan | O 11:00 tan 06:30 y bore canlynol |

Lluniaeth Hwyr y Nos (tu fewn a thu allan):

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Gwener | O 23:00 tan 05:00 y bore canlynol | Dim caniatâd ar hyn o bryd |
| Sadwrn | O 23:00 tan 05:00 y bore canlynol | Cynnydd o'r 04:00 presennol |
| Dydd Sul | O 23:00 tan 02:00 y bore canlynol | Cynnydd o'r 00:00 presennol |

Awr ychwanegol i gael ei ganiatáu yn union wedi cychwyn Amser yr Haf ar ddiwedd yr oriau a ganiateir y bore hwnnw (i wneud iawn am yr awr y bydd y safle fel arall yn ei golli wrth droi'r clociau ymlaen).

Dydd Sul cyn y Gŵyl Banc tan 05:00 y bore canlynol

| | |
|---|---|
| Nos Galan | O 23:00 tan 05:00 y bore canlynol |
| Gŵyl Steffan | O 11:00 tan 06:00 y bore canlynol |

Darparwyd copi o'r amodau presennol.  Gwnaeth y cais gais i amrywio'r amodau hynny:

Atodiad 2:

| | |
|---|---|
| Amod 15 | I'w ddiwygio i nodi 'bydd darpariaeth pob adloniant a reoleiddir ar ardal y bandstand yn Ffordd Churchill/Heol-y-Frenhines yn gorffen am 01:00' |
| Amod 17 | I'w ddiwygio i nodi 'Bydd gofyn cael goruchwyliaeth gan oedolyn ar gyfer unigolion o dan 18 oed wedi 20:00' |

Atodiad 3:

| | |
|---|---|
| Amod 1 | I'w ddiwygio i nodi 'rhoddir y drwydded safle ar gyfer 5 digwyddiad unigol o'r fath bob blwyddyn, gan para dim mwy na 72 awr fesul digwyddiad.  Caniateir Gŵyl Steffan a Nos Galan yn ychwanegol i'r 5 digwyddiad yna.' |
| Amod 2 | I'w ddiwygio i nodi 'hysbysir yr heddlu yn ysgrifenedig o leiaf 56 diwrnod cyn cynnal unrhyw ddigwyddiad ('yr hysbysiad').  Mae hawl gan yr heddlu i roi feto absoliwt ar unrhyw ddigwyddiad.  Fodd bynnag, os na fydd yr heddlu yn rhoi ymateb ysgrifenedig i weithredu eu feto o fewn 7 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad, yna tybir fod caniatâd wedi ei roi.  Bydd unrhyw ymateb yn sefydlu'r rhesymau'n llawn dros weithredu'r feto.' |

Daeth y partïon i'r cytundebau canlynol:

- Byddai'r cais parthed Parti Stryd Mardi Gras Clwb Nos Pulse yn cael ei glywed yn gyntaf, yna'r ddau gais parthed Clwb Nos Pulse a Bar Caffi, ac yn olaf y ddau gais parthed Parc Lane Fish and Chips;
- Byddai Mr Gerald Gouriet yn cynrychioli'r Awdurdod Trwyddedu yn annerch yr is-bwyllgor i ddechrau;
- Mae'r cais parthed Parti Stryd Mardi Gras Clwb Nos Pulse wedi ei leoli mewn ardal sydd yn dod o dan y Polisi Effaith Gronnol.

<u>Sylwadau'r Awdurdod Cyfrifol</u>

Anerchodd Gerald Gouriet QC yr Is-Bwyllgor ar ran yr Awdurdod Trwyddedu. Cyfeiriwyd aelodau at achos R. (yn achos cais Cyngor Dinas Westminster) v Llys y Goron Middlesex a Chorion plc [2002] EWHC 1104 (Admin); ac yn benodol y rhesymau dros gael polisïau effaith gronnol sy'n golygu fod Pwyllgorau Trwyddedu yn ystyried problemau nad syd efallai yn ymwneud â safle benodol neu ymddygiad trwyddedai penodol ac a all fod gryn bellter o'r safle. Cyfeiriodd yn benodol at baragraffau 23 a 24 y dyfarniad ac yn benodol at y ffaith bod yn rhaid i'r Pwyllgor ystyried y rhesymau dros y polisi ac mai mater i'r ymgeisydd berswadio'r Pwyllgor paham y dylid gwyro o'r polisi.

Cyfeiriwyd aelodau hefyd at y Polisi Effaith Gronnol a'r Datganiad ar Bolisi Trwyddedu 2016 – 2021 a gofynnwyd iddynt ystyried a oedd yr ymgeiswyr wedi dangos yn llwyddiannus na fyddai'r safle yn ychwanegu'n gronnol negyddol ar un

neu fwy o'r amcanion trwyddedu ai peidio. Cyflwynwyd na chafwyd unrhyw ymgais gan yr Ymgeisydd, yn yr atodlen weithredu i fynd i'r afael ag effaith y Polisi.

Cyfeiriodd Mr Gouriet QC Aelodau hefyd at y Cynllun Digwyddiad a oedd yn darparu manylion ar gapasiti dros dro y safle, sef 3,300, gyda 2500 o docynnau ar gael ar gyfer y tu allan, ynghyd â 650 o docynnau ar gyfer Clwb Nos Pulse ac fe ddwedodd wrth Aelodau na ellid bod yn fodlon na fyddai yna unrhyw effaith negyddol gronnol.

Mabwysiadodd Richard Cole, y Cwnsel ar ran Heddlu De Cymru, y cyflwyniadau a wnaed ar ran yr Awdurdod Trwyddedu a chadarnhau eu gwrthwynebiad i ganiatáu'r cais.

Cadarnhaodd Mr Phillip Kolvin QC a ymddangosodd ar ran yr ymgeisydd, er bod yr ymgeisydd wedi codi gwrthwynebiad i dystiolaeth Heddlu De Cymru cyn y gwrandawiad am fod y gwrandawiad wedi ei ohirio yn y gorffennol a bod swm mawr o ddogfennaeth wedi ei gynhyrchu yr wythnos ddiwethaf, nid oedd yr ymgeisydd yn dymuno codi unrhyw faterion technegol ynghylch dilysrwydd y dystiolaeth hon ac felly roedd yr ymgeisydd yn cydsynio i dystiolaeth yr heddlu gael ei chlywed gan y gwrandawiad.

Rhoes Tony Bowley, Swyddog Trwyddedu nifer o enghreifftiau i Aelodau o ddigwyddiadau a adroddwyd gan yr heddlu y gellid eu cysylltu â phartïon stryd blaenorol; ac â manylion nifer o ddigwyddiadau a adroddwyd yn sgil effaith gronnol partïon stryd blaenorol, ond wrth ymateb i gwestiynau awgrymodd nad oedd tystiolaeth uniongyrchol yn cysylltu'r digwyddiadau â'r Parti Stryd dim ond eu bod wedi digwydd yn y cyffiniau e.e. Ffordd Churchill.

Cyfeiriwyd aelodau gan Mr Kolvin QC at Atodiad 1 tystiolaeth Heddlu De Cymru a'u cynghori nad oedd unrhyw ganlyniadau wedi eu rhoi parthed y 12 digwyddiad a gofnodwyd. Eglurodd mai dim ond 1 o'r digwyddiadau oedd yn cyfeirio at y parti stryd; roedd un digwyddiad wedi ei gofnodi ar ddyddiad pan nas digwyddodd y parti stryd; cyfeiriai un digwyddiad at y Chapel; cyfeiriai 2 at Kings Bar; 1 at 'safle trwyddedig'; a 4 digwyddiad arall yn cyfeirio at Pulse.

O ran Atodiad 2 yn nhystiolaeth Heddlu De Cymru, dwedodd Mr Kolvin QC bod unrhyw ddigwyddiadau o drais neu anrhefn yng nghanol y ddinas ar ddyddiadau'r parti stryd wedi eu cynnwys yn y bwndel o dystiolaeth a gynhwyswyd gan roi esiampl o un digwyddiad yn Nhafarn Blackweir ar Heol y Gogledd ac o rywun yn dioddef ymosodiad o'r fogfa.

Cynghorwyd Aelodau gan PC Tim Davies fod nifer o amodau ychwanegol wedi eu hawgrymu, gan gynnwys ardal wedi ei neilltuo ar gyfer gwerthu alcohol lle na chaniateid mynediad i rai dan 18, lle ceid teledu cylch cyfyng; a bod staff diogelwch i wisgo camerâu ar eu cyrff. Mae nifer fawr o staff diogelwch safleoedd trwyddedig eraill a'r heddlu bellach yn gwisgo camerâu cyrff. Tra y cytunwyd i'r amod ychwanegol parthed ardal wedi ei neilltuo i werthu alcohol, ni chytunwyd ar y lleill. Cyfeiriodd PC Davies at y feto absoliwt a oedd gan yr Heddlu dros y digwyddiad a'r ffaith fod yr ymgeiswyr yn ceisio newid amodau fel mai 7 diwrnod sydd gan yr heddlu i ymateb i hysbysiad o ddigwyddiad. Dywedodd PC Davies, gan gofio nifer yr asiantaethau y byddai'n rhaid cysylltu a nhw parthed digwyddiad o'r math hwn, na fyddai'n bosibl cael ymatebion o fewn 7 diwrnod.

Ceisiodd y Rhingyll Hardwick gyfeirio at ddadansoddiad a chymhariaeth at nifer y digwyddiadau heddlu ar ddyddiau parti stryd o'u cymharu â dyddiau eraill. Ar ran yr ymgeisydd gwrthwynebodd Mr Kolvin QC dderbyn y dystiolaeth hon, am ei bod yn dystiolaeth newydd ac nad oedd yr ymgeisydd wedi cydsynio iddi gael ei chyflwyno. Cyfeirodd Miss Price y Pwyllgor at Reoliad 16 Rheoliadau y Ddeddf Drwyddedu 2003 (Gwrandawiadau) sy'n caniatáu i bartïon annerch y pwyllgor er mwyn egluro, Rheoliad 17 sy'n caniatáu i aelodau holi cwestiynau i'r partïon, ond cytunodd â Mr Kolvin QC bod Rheoliad 18 yn atal cyflwyno tystiolaeth newydd oni bai fo'r holl bartïon yn cydsynio. Ni chyflwynwyd y dystiolaeth ger bron y Pwyllgor a'r cyfan wnaethant oedd holi'r swyddogion i gael eglurder.

Sylwadau Unigolion Eraill

Mabwysiadodd Leo Charalambides, Cwnsel ar ran Jurys Inns, y cyflwyniadau blaenorol a wnaed ac ychwanegodd fod yr ymgeisydd wedi methu gweithredu yn unol ag Adran 182 Arweiniad y ddeddf Drwyddedu, a'i fod wedi methu a mynd i'r afael â'r Polisi Effaith Gronnol yn yr atodlen weithredu. Dywedwyd wrth Aelodau fod ceisiadau blaenorol wedi eu gwneud am gyfarfodydd gyda'r ymgeisydd parthed Pulse ond heb unrhyw ymateb.

Dywedir mai yr oll sydd wedi ei ddarparu yw amlinelliad bras o'r oriau ychwanegol sydd eu hangen a dim manylion ynghylch y math o ddigwyddiadau a allasai ddigwydd.

Dywedodd Mr Charambides yn hytrach na dangos na fyddai unrhyw effaith negyddol ar yr effaith gronnol eu bod wedi dangos i'r gwrthwyneb.

Wrth ymateb i gwestiynau dywedodd Billy McCabe, Is-Reolwr, Jurys Inns wrth Aelodau pan fo digwyddiad bod gwestywyr yn derbyn rhybudd y bydd y gwesty yn brysur a swnllyd iawn. Ym mis Mawrth 2017 cyflwynwyd Log Sŵn i gofnodi unrhyw esiamplau/cwynion yn y gwesty ac yn hytrach na chysylltu â'r Heddlu y cysylltir â Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (SIA).

Anerchodd Chris Weaver, Cynghorydd Ward ar gyfer Cathays, sy'n cynnwys Canol y ddinas, Ffordd Churchill a Heol y Frenhines, yr Is bwyllgor ar ran y preswylwyr. Mae'n ymwybodol y terfir ar breswylwyr Landmark Place gan y Digwyddiadau Parti Stryd pan gânt eu cynnal ar nosweithiau Sadwrn, fodd bynnag os bydd diwrnod arall yn cael ei ganiatáu y bydd yn arwain at gyfnod estynedig o amharu ar gwsg.

Wrth ymateb i gwestiynau dwedodd iddo gael ei ethol ym mis mai 2012 a dechreuodd dderbyn cwynion yn 2013, roedd preswylwyr yn ymwybodol fod caniatâd wedi ei roi i ddigwyddiadau o'r math. Cafwyd cwynion mewn cyfarfodydd PACT. Gyrrwyd gohebiaeth at breswylwyr yn eu hysbysu o'r cais hwn.

Sylwadau'r Ymgeisydd

Cyflwynodd Phillip Kolvin QC y cais. Rhoddwyd rhywfaint o fanylion cefndir i'r Is bwyllgor parthed yr ymgeisydd – ei brofiad a'i ymrwymiad i'r Ddinas.

Cadarnhaodd Mr Kolvin QC fod yr ymgeisydd wedi derbyn y canlynol;

- Bod polisi effaith gronnol (PEG) yn weithredol ar Ganol Dinas Caerdydd,

- Mae’r PEG yn berthnasol i’r ceisiadau hyn;
- Felly mae yna ragdybiaeth wrthbrofadwy;
- Golyga’r rhagdybiaeth wrthbrofadwy oni bai fo’r ymgeisydd yn gallu dangos na fydd unrhyw ychwanegu at yr effaith negyddol gronnol, yna dylid gwrthod y cais neu dylai fod yn destun cyfyngiadau penodol;
- Mae’r effaith gronnol yn yr ardal ac nid yn ymwneud â’r safle ei hun;
- Nid yw’r polisi yn un absoliwt ac felly os gall yr ymgeisydd ddangos na fydd y cais yn ychwanegu ar yr effaith negyddol gronnol yna gellid caniatáu y cais;

Cyfeiriodd mr Kolvin QC yn benodol at y ffaith y gall y Pwyllgor gytuno i’r cais yn amodol ar ba gyfyngiadau bynnag y teimlant sydd yn briodol.

Dywedwyd wrth aelodau fod pob cais yn ymwneud ag amrywio trwydded a fodolai eisoes; bod angen ystyried pob cais yn ôl ei rinweddau ei hun a bod nifer o ddewisiadau ar gael i’r Is Bwyllgor o ran datrysiad; caniatáu’r cais, cyfyngiad ar yr hyn y gofynnwyd amdano; neu wrthod y cais.

Dywedwyd wrth Aelodau na chafwyd rhyw lawer o wybodaeth yn y cais/atodlen weithredu ond roedd yr esiampl o gynllun digwyddiad yn dangos na fyddai’r oriau ychwanegol yn ychwanegu at yr effaith gronnol ar un neu fwy o’r amcanion trwyddedu gan fod y trwyddedau ar gyfer yr amrywiol safleoedd yn eu lle eisoes.

Wrth ymateb i gwestiynau yn ymwneud â’r agwedd niwsans dywedwyd wrth Aelodau na chyflwynwyd hysbysiad atal ar y parti stryd ers cyflwyno’r hysbysiad yn 2008, ac na chafwyd unrhyw wrthwynebiadau gan Iechyd yr Amgylchedd.

Tra y derbyniwyd fod yr holl safleoedd o fewn yr ardal effaith gronnol, nid oedd yn bolisi absoliwt.  Roedd hi’n bwysig i’r Pwyllgor nodi nad oedd pob un o’r lleoliadau yn adnabyddus.  Atgoffwyd aelodau os oedd y cais i gael ei wrthod y byddai yn angenrheidiol dangos y byddai caniatáu’r cais yn tanseilio’r amcanion trwyddedu.

Dywedwyd wrth Aelodau fod Pulse yn leoliad Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol, a bod y parti yn teilwra i raddau helaeth ar gyfer y gymuned honno a bod angen i’r awdurdod ddangos ystyriaeth drylwyr o’r ddyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus, er bod y pwyslais a roddwyd ar y ddyletswydd honno yn fater i’r Is-Bwyllgor.

Dywedodd Mr Kolvin QC fod angen i Aelodau bwyso a mesur, gan gofio bod y cais parti stryd yng nghanol prifddinas fywiog.  Nid oes raid i Aelodau fod yn sicr tu hwnt i bob amheuaeth, mae’n fater o p’un ai y bydd neu na fydd cynnydd annerbyniol ar yr effaith a gaiff ei brofi.

Mae’r Parti Stryd Mardi Gras wedi bod yn ddigwyddiad a reolir yn dda dros y degawd diwethaf, gan weithio o dan delerau gorchymyn cau stryd.  Mae’r amodau trwydded sy’n bod eisoes – a roddwyd gan yr Is bwyllgor a’r Llys Ynadon ar apêl yn hyrwyddo’r amcanion trwyddedu, er enghraifft nifer yr arolygon drws, lefel dderbyniol o ran sŵn, feto llawn gan yr heddlu dros y digwyddiad a bod rhaid cyflwyno’r cynllun gweithredu i’r Panel Cynghori Grŵp Diogelwch.  Mae Aelodau wedi derbyn copi o’r cynllun gweithredu diweddaraf. Ar ran yr Awdurdod Trwyddedu amlinellodd Rhys Morgan rôl y Panel cynghori a chadarnhaodd nad oedd ganddynt rym i benderfynu.

Awgrymodd Mr Kolvin QC efallai y byddai'r Is-Bwyllgor am ystyried amod trwydded a fyddai'n gofyn cael ymgynghoriad ffurfiol a phreswylwyr lleol cyn y partïon stryd

Dywedwyd wrth aelodau fod y digwyddiad wedi ei ffensio, na chafwyd cwynion am sŵn ers 2008, bod hysbysiadau digwyddiad dros dro wedi eu defnyddio'n y gorffennol i ymestyn oriau.

Rhoddwyd amlinelliad o'r cais i Aelodau.

- Caniatáu i'r parti stryd ddigwydd ar nos Wener – sy'n cyfateb a digwyddiad Pride ei hun;
- Ymestyn yr oriau ar nos Sadwrn a nos Sul, a
- ymestyn yr oriau ar nos Sul cyn Gŵyl Banc Dydd Llun; a
- diwygio nifer o'r amodau y cytunwyd yn flaenorol arnynt.

Dywedodd Mr Colvin QC parthed yr amodau pellach y gofynnwyd amdanynt gan yr Heddlu y gellid cytuno ar 2, fodd bynnag, ni ellid cytuno i gamerâu gael eu gwisgo a theledu cylch cyfyng i gael ei osod. Dywedodd parthed y camerâu corff y gallai hyn atal y rheiny yn y gymuned LBGT rhag mynychu digwyddiad o'r fath ac ymhellach fod camerâu cylch cyfyng eisoes yn yr ardal.

Wrth ymateb i gwestiynau awgrymodd yr ymgeisydd fod pob math o bobl yn mynychu'r digwyddiad, ond bod y pryder penodol ynghylch camerâu corff yn ymwneud â'r gymuned LBGT a fyddai'n mynychu ond nad oedd eto 'wedi dod allan' ac felly y byddent yn anghyfforddus mewn amgylchedd lle gwisgid camerâu cyrff. Byddai ychwanegu camerâu teledu cylch cyfyng ychwanegol yn anghymesur.

Gwnaeth Mr Colvin nifer o awgrymiadau i'r Is-Bwyllgor parthed pa cyfyngiadau y gellid eu gwneud i sicrhau na fyddai'r cais yn ychwanegu at yr effaith gronnol. Roedd hyn yn cynnwys ychwanegu amodau megis cydgysylltu â phreswylwyr, cyfyngu yr oriau Sul ychwanegol dim ond i benwythnosau gwyliau banc, cyfyngu'r oriau ychwanegol Gwener i Sul i ddigwyddiadau 'Pride' yn unig. Awgrymodd hefyd dir canol ar gyfer amod y camerâu corff gan ddweud efallai y gellid cyfyngu hyn i'r prif swyddog ar y drws yn unig.

<u>Crynhoi</u>

<u>Awdurdodau Cyfrifol</u>

Atgoffodd Mr Gouriet QC yr Is-Bwyllgor mai mater i ymgeisydd ddangos yn llwyddiannus na fyddai'r cais yn ychwanegu'n negyddol at yr effaith gronnol ar yr amcanion trwyddedu.

Dywedodd fod byd o wahaniaeth rhwng cael eich cadw yn effro tan 4am â'ch cadw yn effro tan 6am.

Ailadroddodd Richard Cole y pwynt ynghylch yr Effaith Gronnol, gan ddweud fod yn rhaid i'r heddlu blismona'r digwyddiad. Dylid gwrthod y cais, ond os na yna dylid ystyried rhoi'r amodau y gofynnwyd amdanynt gan Heddlu De Cymru.

Unigolion Eraill:

Dywedodd Mr Charalambides wrth yr Is-Bwyllgor ei bod yn annerbyniol i Gwnsel yr ymgeisydd 'bargeinio' dros amodau, yn enwedig wrth ystyried fod y digwyddiadau eisoes yn rhwym i amodau ac nad oedd cynllun ganddynt mewn gwirionedd.

Ymgeisydd

Dywedodd Mr Kolvin ei fod yn ddigwyddiad hapus a chyfeillgar i'r gymuned Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol, na fu unrhyw broblemau yn y digwyddiad hwn dros y degawd diwethaf, nac o dan yr Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro ac mai mantais y cais hwn yw ei fod yn cynnig lle diogel wedi'r digwyddiad Pride.

PENDERFYNWYD - Bod yr Is-bwyllgor, wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu ei hun, yn gwrthod y cais.

3 : CAIS I AMRYWIO TRWYDDED SAFLE – CLWB NOS PULSE – CCCP01608

Nodwyd mai yr un partïon a oedd yn bresennol ar gyfer y cais hwn.

Tynnwyd y cais yn ei ôl ar gais Mr Kolvin QC ar ran yr ymgeisydd.

4 : CAIS I AMRYWIO TRWYDDED SAFLE – BAR CAFFI PULSE – CCCP01611

Nodwyd mai yr un partïon a oedd yn bresennol ar gyfer y cais hwn.

Tynnwyd y cais yn ei ôl ar gais Mr Kolvin QC ar ran yr ymgeisydd.

5 : CAIS I AMRYWIO TRWYDDED SAFLE – PARC LANE FISH & CHIPS - CCCP01906 & CCP01917

Nodwyd mai yr un partïon a oedd yn bresennol ar gyfer y cais hwn.

Derbyniwyd ceisiadau i amrywio'r ddwy Drwydded Safle gan Parc Lane Trading Ltd parthed Parc Lane Fish & Chips, 105-107 Heol y Frenhines, Caerdydd, CF10 2BG.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

1 1 i ymestyn yr oriau a ganiateir i werthu alcohol fel a ganlyn: Dydd Llun i Ddydd Sul o 11:00 i 00:00 (caniatâd presennol 11:00 i 23:00) ac i ganiatáu awr ychwanegol ar ddechrau Amser yr Haf.

2 I ymestyn y caniatâd ar gyfer lluniaeth hwyr yn y nos rhwng Dydd Sul a Dydd Iau o 23:00 i 05:00
Nod y safle yw agor i'r cyhoedd 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

3 I ddiwygio amod (4) i:
Gweinir pob diod wedi 23:00 mewn cynhwysyddion nad sydd o wydr ar ddyddiadau digwyddiadau mawr a ddynodir yng Nghanol Dinas Caerdydd ac hefyd pan geir digwyddiadau ar Ffordd Churchill pan fo'r heol ynghau.

Ar hyn o bryd dywed yr amod: 'Gweinir pob diod mewn cynhwysyddion nad sydd o wydr'.
I ddileu'r amod (1) sy'n nodi: Caiff Trwydded Safle CCCP/01873 ei hildio os derbynnir y drwydded hon yn foddhaol (dim ond ynghylch cais CCCP/01906) y mae a wnelo'r cais yma).

Fel y cytunwyd eisoes yn y gwrandawiad fe glywyd y ddau gais parthed Parc Lane Fish & Chips gyda'i gilydd.

<u>Sylwadau'r Awdurdod Cyfrifol</u>

Anerchodd Gerald Gouriet QC yr Is-Bwyllgor ar ran yr Awdurdod Trwyddedu.

Cyfeiriwyd Aelodau at y Polisi Datganiad Trwyddedu 2016-2021 ac yn benodol i'r wybodaeth fod presenoldeb mannau gwerthu tecawês/bwydydd cyflym yn arafu gwasgariad pobl o Ganol y Ddinas a dywedodd y byddai'r safle yn dod yn 'atyniad' ac nad oedd unrhyw reswm dros gredu na fyddai'r cynnydd yn yr oriau yn arwain at gynnydd yn nifer y bobl ar y stryd ac o ganlyniad yr effeithid ar y gyfradd wasgaru.

Cyfeiriodd Mr Gouriet QC at yr enghraifft a roddwyd gan Darrell Butterworth i wraig swnllyd fynd i'r siop chips am 5am ac yna tawelu unwaith ei bod y tu mewn i'r safle. Eglurodd Mr Gouriet fod hyn yn dangos fod y siop chips yn 'atyniad', oherwydd pe na byddai wedi bod yno na fyddai'r wraig swnllyd wedi bod yno chwaith. Dywedodd ei fod yn denu pobl i'r ardal na fyddai wedi bod yno fel arall.

Dywedwyd wrth aelodau fod mwy o sŵn amgylchynol yn ystod yr wythnos a fyddai'n arwain at mwy o sensitifrwydd i sŵn.

Ar ran Heddlu De Cymru mynegodd Richard Cole bryder y byddai'n dod yn atyniad pe byddai'r safle ar agor 24 awr y dydd 7 diwrnod yr wythnos.

Dywedodd PC Tim Davies fod dwy drwydded safle er nad yw un ohonynt yn weithredol ar hyn o bryd.

Eglurodd PC Tim Davies ynghylch safleoedd timau'r heddlu yn yr ardal, ac eglurodd fod adnoddau ychwanegol yn cael eu cludo o'r maestrefi i ganol y ddinas ar nosweithiau Gwener a Sadwrn. Dywedodd fod mwyafrif yr heddlu yn gorffen am 4am, a bod y Ganolfan Triniaeth Alcohol yng nghanol y ddinas yn gorffen am 5am.

Rhoddwyd manylion nifer o ddigwyddiadau a adroddwyd yn y cyffiniau, dywedodd Mr Kolvin ar ran y cais y cafwyd 6 digwyddiad mewn cyfnod o 19 mis.

Dywedodd PC Tim Davies wrth Aelodau fod McDonalds ar agor ar hyn o bryd 24 awr y dydd a thra bod Burger King yn gallu masnachu 24 awr eu bod yn dewis peidio gwneud. Roedd swyddogion y tu allan i McDonalds ar nosweithiau Gwener a Sadwrn oherwydd nifer y digwyddiadau a adroddwyd yn eu cylch er bod nifer y digwyddiadau wedi gostwng. Nid oes angen wedi bod i osod swyddogion y tu allan i siop Fish & Chip, ond bod yr ymgeisydd wedi gwneud cais am bresenoldeb yn ardal Heol-y-Frenhines/ Ffordd Churchill.

Wrthateb cwestiwn gan Mr Kolvin QC, dywedodd Mr Bowley fod Heddlu De Cymru wedi gwrthwynebu'r cais blaenorol parthed nosweithiau Gwener a Sadwrn ym mis

Hydref 2013 ac er mai dim ond 6 digwyddiad a gafwyd mewn 19 mis ni ellid fod wedi proffwydo'r ffigyrau hynny. Derbyniwyd fod cofnod o ddigwyddiadau Parc Lane yn un da.

Sylwadau gan Bartïon eraill

Atgoffodd Mr Charalambides Aelodau ynghylch canllaw Adran 182 y Ddeddf Drwyddedu 2003 parthed gwneud asesiad iawn o'r dystiolaeth a nodi'r peryglon a'r wybodaeth foel prin ei gwybodaeth a oedd yn yr atodlen weithredu.

Wrth ymateb i gwestiynau dywedwyd wrth Aelodau os nad yw'r gwesty yn llawn nad yw ystafelloedd sy'n agos i siop Fish & Chips yn cael eu gosod. Cafwyd cwyn yn y gorffennol gan westai yn ystafell 116 a ofynnodd am gael symud oherwydd y sŵn a'r arogl.

Ailadroddodd y Cynghorydd Weaver, y Cynghorydd Ward, y byddai'r cynnydd yma mewn oriau yn cynyddu sŵn a sbwriel yn sylweddol yn ystod yr wythnos ac o dan yr amgylchiadau ei fod yn tramgwyddo'r PEG a'r Polisi Trwyddedu.

Dywedodd y Cynghorydd Weaver er bod y safle yn bellach i ffwrdd o drigolion ffordd Churchill, y byddai'n denu mwy o bobl i'r ardal yn gyffredinol.

Sylwadau'r Ymgeisydd

Mynegodd Mr Kolvin syndod at danbeidrwydd y gwrthwynebiadau a godwyd. Mae'r safle wedi ei thrwyddedu yn gaeth gyda lluniau teledu cylch cyfyng da, y defnydd o polycarbonadau, cyflogir staff diogelwch ar ôl 11.00pm, aelodaeth o fforwm safleoedd trwyddedig a phatrolau sbwriel rheolaidd.

Gwrthwynebwyd yr agor ar nosweithiau gwener/Sadwrn, ond caniatawyd yr oriau. Rhain yw'r nosweithiau prysuraf ac fel y gwelwyd dim ond 6 digwyddiad a fu mewn 19 mis, gyda dim ond un yn y 9 mis diwethaf. Ni wireddwyd pryderon Heddlu De Cymru. Ni roddwyd unrhyw orchmynion atal sŵn ac ni wnaed cais i gael adolygiad yn dilyn agor y safle am 24 awr ar Gwener/Sadwrn.

Dywedodd Mr Kolvin fod y ddwy gofrestr gwynion a gedwir gan y gwesty ddim yn dangos unrhyw gwynion o ran arogl na sŵn o'r safle. Gosodwyd system hidlo dda ar adeg dodrefnu'r safle.

Amlinellodd Mr Kolvin ail elfen y cais; y gellir gweini alcohol gyda bwyd tan 11.00pm yn unig, gyda chais i ymestyn hynny o awr. Does dim honiadau o bobl yn meddwi ar y safle. Amlinellodd Mr Kolvin y cais i bob diod a weinir wedi 23:00 gael ei gweini mewn cynhwysyddion nad sydd o wydr ar ddyddiadau digwyddiadau mawr a ddynodir yng Nghanol Dinas Caerdydd ac hefyd pan geir digwyddiadau ar Ffordd Churchill pan fo'r heol ynghau, yn hytrach nag i bob diod a weinir gael ei gweini mewn cynwysyddion nad sydd o wydr. Nid oedd Heddlu De Cymru yn barod i gytuno i'r diwygiad ar yr amod ar y ffurf honno ond y byddai yn derbyn i bob diod gael ei gweini mewn cynwysyddion nad sydd o wydr ar ddyddiau digwyddiadau mawr.

Dywedodd Darrell Butterworth, yr ymgynghorydd Cydymffurfio Diogelwch a Thrwyddedu ei fod wedi mynychu'r safle ar 30 Rhagfyr 2017 a dywedodd fod hwnnw

yn ddyddiad cyfleus iddo fynychu'r safle. Wrth ymateb i gwestiwn dywedodd Mr Butterworth y byddai wedi bod yn noson dawel ond nid o anghenraid y tawelaf un.

Dywedwyd wrth Aelodau fod Mr Butterworth wedi aros yn ystafell 115 yn Jurys inn sydd yn union uwch ben y siop Fish& Chips.  Yr unig sŵn a glywyd oedd hwnnw yn dod o'r gwesty.

Dywedodd Mr Butterworth y gwyliwyd y safle rhwng 2100 a 0500, gyda dau ymweliad â'r safle, un ar gyfer bwyd.  Cerddodd heibio i'r safle o leiaf 100 o weithiau.  Ni nodwyd unrhyw faterion, fodd bynnag fe welodd wraig swnllyd yn croesi'r sgwâr, roedd staff diogelwch y tu allan i'r safle, fodd bynnag, ymdawelodd pan aeth i mewn i'r siop.  Dywedwyd wrth Aelodau fod mwyafrif y bobl yn bwyta yn y safle.  Mae llif cyson o bobl yn defnyddio'r siop Fish & Chips gydol y nos.

Er mwyn eglurder rhoddodd Mr Phipps hanes o'r ceisiadau i Aelodau a oedd yn ymwneud â'r safle a phan wnaed amrywiadau i'r drwydded.

Wrth ymateb i gwestiynau gan Aelodau awgrymodd Carl Ryan mai diben y cais ar gyfer y safle oed di wneud arian a gwasanaethau cwsmeriaid yn y Ddinas.  Mae pob rheswm dros gredu y bydd gweithredu'r busnes 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos yn broffidiol.  Dywedodd wrth Aelodau ei fod yn credu fod y wybodaeth a roddwyd yn ystod y gwrandawiad yn sbwriel; roedd y siop yn cael ei rhedeg yn dda iawn. Dywedwyd wrth Aelodau nad oedd pobl; yn cael eu cyfeirio i'r siop o glwb Pulse.

Cadarnhaodd Mr Kolvin nad yw Deddf Cydraddoldeb 2010 yn berthnasol i'r achos hwn.

Crynhoi

Awdurdodau Cyfrifol

Ailadroddodd Mr Gouriet bryderon yr Awdurdod Trwyddedu y byddai ymestyn yr oriau yn arwain at arafu gwasgariad pobl yn yr ardal gan ddweud nad dim ond y rheiny a oedd yn mynychu'r siop Fish & Chips ond bod eraill a fyddai hefyd yn loetran hyd y lle.

Cyfeiriodd Richard Cole at y cais gan yr ymgeisydd am fwy o blismona, sy'n tanlinellu'r pwynt bod yna anawsterau, ond bod yn rhaid derbyn mai nifer cyfyngedig o ddigwyddiadau a gofnodwyd ar y safle, nid ydynt yn ymwneud â staff Drws.    Dylid gwrthod y cais, ond os na yna dylid ystyried rhoi'r amodau y gofynnwyd amdanynt gan Heddlu De Cymru.

Unigolion Eraill:

Cynghorodd Mr Charalambides yr Is-Bwyllgor i ystyried a fu'r ymgeiswyr yn llwyddiannus ai peidio yn dangos yn llwyddiannus na fydd y safle yn ychwanegu at effaith gronnol negyddol ar un neu fwy o'r amcanion trwyddedu a mynegodd bryder bod yr ymgeisydd yn ystyried cyflwyniadau llafar ac ysgrifenedig y partïon yn sbwriel.

Aeth Mr Charalambides yn ei flaen i ddweud bod y methiant i fynd i'r afael â'r PEG yn siarad cyfrolau. Dywedodd fod record dda yn ddisgwyliedig gan bob safle trwyddedig ac mai dyna'r safon gyffredin.

Ymgeisydd

Cyfeiriodd Mr Kolvin QC at y pwyntiau a wnaed parthed y PEG yn ystod y cais cyntaf a dywedodd fod y safle hwn yn gweithredu'n dda ac mai dim ond un digwyddiad a gafwyd yn ystod y 9 mis diwethaf. Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n dangos fod y siop Fish & Chips wedi achosi problemau.

PENDERFYNWYD - Bod yr Is-bwyllgor, wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu ei hun, yn gwrthod y cais ond parthed amod 4 yn cytuno i'w ddiwygio fel ei fod yn darllen fel a ganlyn:.

- Gweinir pob diod mewn cynwysyddion nad sydd o wydr ar ddyddiadau digwyddiadau mawr a ddynodir yng Nghanol Dinas Caerdydd ac hefyd pan geir digwyddiadau ar Ffordd Churchill pan fo'r heol ynghau.'